

Cwestiynau Cyffredin

Sut fydd y mesurau'n cael eu defnyddio?

Byddwn yn defnyddio mesurau perfformiad ansawdd i oleuo ein gwaith ac i oleuo asesiadau o gydymffurfedd yn erbyn yr amod ansawdd a gwelliant parhaus o fewn y fframwaith rheoleiddio. Hefyd, maent yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir gan Estyn (Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) yn ystod gwaith arolygu neu adolygu thematig a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) mewn adolygiadau o ddarparwyr addysg uwch. Maent yn helpu darparwyr i asesu eu perfformiad eu hunain ac adnabod ble y gallai fod angen gwelliannau. Maent hefyd yn helpu'r cyhoedd, yn enwedig dysgwyr, eu rhieni a gofalmwyr, i wneud penderfyniadau, ochr yn ochr â ffactorau eraill, ynghylch y dewis gorau o ddarparwr dysgu a chwrs ac ymgysylltu â darparwyr ynghylch eu perfformiad. Mae data ar berfformiad yn fan cychwyn a all helpu i adnabod darparwyr, rhaglenni, adrannau neu grwpiau o ddysgwyr sy'n perfformio i safonau uchel; neu'r rhai lle mae angen cymorth i ddwyn gwelliant.

Pam fod Medr yn bwriadu cyhoeddi perfformiad yn erbyn meincnodau?

Mae arnom eisiau bod yn dryloyw i sicrhau ein bod yn darparu cyd-destun ar gyfer ein dehongliad o'r data. Mae arnom hefyd eisiau lleihau i'r eithaf risg o ddyblygu ymdrech gyda darparwyr yn datblygu eu meincnodau eu hunain.

Pam nad yw Medr yn cynnig cyhoeddi mesur o werth ychwanegol?

Mae gwerth ychwanegol yn fesur o'r cynnydd a wnaed gan ddysgwyr, y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig fel arfer yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol a nodweddion y dysgwyr megis rhywedd. Rydym wedi ystyried hyn, yn seiliedig ar brofiad blaenorol o ddadansoddi gwerth ychwanegol, ond mae gwerth y mesur yn gyfyngedig ar gyfer llawer o fathau o ddysgu gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol ac addysg oedolion, oherwydd y cysylltiadau gwannach rhwng deilliannau a chyrhaeddiad blaenorol. Roedd darparwyr yn awyddus i ddefnyddio'r mesurau gwerth ychwanegol blaenorol ar gyfer AB a chweched dosbarth i roi cymorth i bennu targedau a chyflawni gweithgarwch hunanwerthuso yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl cynhyrchu mesur gan ddefnyddio setiau data wedi'u gwirio'n genedlaethol i hwyluso hyn mewn modd amserol. Yn seiliedig ar ymgysylltu blaenorol â'r sector, mae methodolegau gwerth ychwanegol ystadegol gadarn yn anodd i ddefnyddwyr eu deall ac rydym yn teimlo nad yw hyn yn bodloni'r lefel o dryloywder yr ydym yn anelu ati. Felly, rydym wedi penderfynu peidio â chynhyrchu hyn fel mesur ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i ddatblygu a chyhoeddi data mesuriadau perfformiad ansawdd cyd-destunol lle y bo'n bosibl, i helpu i ddangos effaith nodweddion dysgwyr ar eu deilliannau.

A all Medr gyhoeddi data'n gynharach yn y flwyddyn?

Mae Medr yn cyhoeddi dadansoddiad o ddata AU ar ôl i ni gael data HESA ac ar ôl i HESA gyhoeddi eu datganiad cyntaf o'r data ledled y DU. Ar gyfer rhannau eraill o'r sector rydym wedi ystyried y potensial i drefnu bod data ar gael yn gynharach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'n gryn her newid dyddiad cau LLWR o ystyried yr angen i ddarparwyr gael gwybodaeth am ardystio gan gyrrff dyfarnu, ac i hwyluso'r cylch cysoni data cyfredol ar gyfer darparwyr. Gan ein bod yn defnyddio mesurau perfformiad ansawdd cyson ar draws ysgolion a SABau, byddai arnom angen i ddata ar berfformiad ysgolion fod ar gael yn gynharach hefyd, ac nid yw hyn o fewn ein rheolaeth. Pan fo data

ar gael yn gynharach, er enghraifft ar gyfer boddhad dysgwyr, bydd mesurau'n cael eu cyhoeddi ar y cyfle cynharaf.

Sut mae'r mesurau perfformiad ansawdd hyn yn ategu gwaith Medr ar bolisi o ran y Gymraeg?

Rydym yn amcanu at rannu data yn ôl iaith astudio lle y bo'n bosibl, er mwyn ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r deilliannau i ddysgwyr Cymraeg o'i gymharu â'r rhai sy'n astudio trwy gyfrwng y Saesneg. Ar wahân byddwn yn gwneud gwaith i wella'r broses o gasglu data ar iaith astudio i'n galluogi i fonitro pa un a ydym yn cyrraedd ein nod strategol bod mwy o ddysgu'n digwydd yn y Gymraeg.

Sut all mesurau perfformiad ansawdd gynorthwyo darparwyr i wella'n barhaus?

Bydd mesurau perfformiad ansawdd yn helpu darparwyr i ddeall sut y mae deilliannau eu dysgwyr yn cymharu â rhai eu cymheiriaid. Bydd hyn yn eu helpu i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella, rhannu arfer da, a cheisio cymorth cymheiriaid lle y bo'n briodol. Byddant hefyd yn cynorthwyo darparwyr i adnabod tueddiadau a monitro effaith ymyriadau.